

# TAFLEN FFEITHIAU LLOFRUDDIAETH- HUNANLADDIAD

## CANLLAWIAU I'R CYFRYNGAU

ar adrodd am hunanladdiad

**SAMARITANS**  
**SAMARIAID**

### Cefndir

Mae achosion o lofruddiaeth-hunanladdiad yn eithriadol o brin ond maent yn tueddu i gael sylw anghymesur yn y cyfryngau. Ceir lofruddiaeth-hunanladdiad pan fo person yn lladd aelodau o'i deulu cyn lladd ei hun, neu pan fo unigolyn yn lofruddio nifer o bobl mewn man cyhoeddus, fel ysgol, cyn lladd ei hun.

Y diffiniad o lofruddiaeth-hunanladdiad a dderbynnir yn gyffredinol yw 'lofruddiaeth sy'n cael ei dilyn gan hunanladdiad y cyflawnydd/wyr o fewn wythnos'. Fodd bynnag, mae diffiniadau gwahanol wedi cael eu defnyddio gan ymchwilyr ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu tebyg â'i debyg.

Mae'n anochel y ceir adroddiadau am ddigwyddiadau mor frawychus a gellir dadlau ei bod er budd y cyhoedd ymchwilio i'r amgylchiadau o gwmpas marwolaethau o'r mathau hyn. Efallai bod achosion o lofruddiaeth-hunanladdiad yn anghyffredin ond gallant gael effaith ar raddfa eang. Mae'n bosibl y bydd y teulu, cymdogaion, cyfeillion a thystion wedi'u trawmateiddio ar ôl y digwyddiad. Efallai y bydd yr adrodd am y fath achosion yn helaeth ac yn para am ddyddiau neu wythnosau. Felly mae'n hanfodol i newyddiadurwyr fod yn arbennig o ofalus wrth adrodd am y storïau hyn.

### Cofiwch

- Fel gyda hunanladdiadau eraill, mae yna dystiolaeth bod adroddiadau am achosion o lofruddiaeth-hunanladdiad yn gallu arwain at ddigwyddiadau dynwaredol.
- Mae'r rhesymau pam mae rhywun yn dewis lofruddio eraill ac yna lladd ei hun yn eithriadol o gymhleth. Mae'r llenyddiaeth academaidd sydd ar gael yn awgrymu y gall y ffactorau risg gynnwys problemau iechyd meddwl difrifol a chamddefnyddio sylweddau.
- Mae natur sydyn a brawychus achosion o lofruddiaeth-hunanladdiad yn gallu cael effaith aruthrol ar y cymunedau lle maent yn digwydd a gall yr effeithiau trawmatig bara am amser hir

## ➔ Arferion gorau ar gyfer adrodd am achosion o lofruddiaeth-hunanladdiad:

- ◉ Wrth adrodd am weithredoedd y cyflawnydd cyn neu yn ystod y digwyddiad, byddwch yn eithriadol o ofalus i beidio â gorliwio na dramateiddio'r digwyddiadau. Mae perygl y caiff ymddygiad dynwaredol ei sbarduno ymysg unigolion bregus eraill.
- ◉ Meddylwch yn ofalus cyn mynd at dystion, dioddefwyr neu eraill y mae llofruddiaeth-hunanladdiad wedi effeithio arnynt, oherwydd gallant fod wedi'u trawmateiddio. Er y gall rhai pobl fod yn weladwy emosiynol, efallai na fydd eraill ddim. Peidiwch â rhagdybio bod hyn yn golygu eu bod mewn cyflwr i gael eu holi. Os yw tyst neu ddioddefwr yn gwirfoddoli i gael ei holi, gofynnwch fwy nag unwaith a yw'n deall y bydd yr hyn a ddywed yn cael ei ddarlledu neu ei argraffu.
- ◉ Cwestiynwch a oes gwir angen gwneud adroddiad o leoliad llofruddiaeth-hunanladdiad. Er enghraifft, a yw'n hanfodol cael fideo o'r stryd neu'r fan lle digwyddodd llofruddiaeth-hunanladdiad teuluol pan fo perthnasau a chymdogion efallai wedi'u brawychu ac yn drallodus.
- ◉ Byddwch yn eithriadol o ofalus, wrth wneud adroddiad byw ar achos honedig o lofruddiaeth-hunanladdiad, nad ydych yn achosi panig. Os rhowch gyhoeddusrwydd i amcangyfrifon o nifer y bobl sydd wedi cael eu lladd neu eu hanafu, cyn bod sicrwydd am hyn, efallai y byddwch yn peri straen diangen i deuluoedd a chymunedau.
- ◉ Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych chi'n gwneud adroddiad am ddigwyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn gyflym, er mwyn gwarchod rhag cam-ddisgrifio neu orliwio'r sefyllfa. Eglurwch mai safbwyntiau unigolion yw datganiadau gan dystion a goroeswyr, ac nid disgrifiad pendant o'r digwyddiadau.
- ◉ Peidiwch â dyfalu am y cymhellion y tu ôl i ymddygiad y cyflawnydd. Mae'n bosibl y bydd dyfalu di-sail yn dylanwadu'n ormodol ar bobl fregus.

I gael awgrymiadau cyffredinol am yr arferion gorau gweler *Canllawiau'r Samariaid i'r Cyfryngau ar Adrodd am Hunanladdiad* ar:  
[www.samaritans.org/mediaguidelines](http://www.samaritans.org/mediaguidelines)



Cysylltu â swyddfa'r wasg y Samariaid:

**+44 (0)20 8394 8300**

Tu allan i oriau: **+44 (0)7943 809 162**



[press@samaritans.org](mailto:press@samaritans.org)



#reportingsuicide